

Deuparth Ffordd Ei Gwybod



Polisi ADY

Mae'r Corff Llywodraethol Llawn wedi mabwysiadu'r polisi hwn.

Cytunwyd: Tachwedd 2025

Arwyddwyd: *Julie Barton*

Mrs Julie Barton

Cadeirydd y Corff Llywodraethol

I'w adolygu: Tachwedd 2027

YSGOL GARTH OLWG

POLISI ADY

Rhagymadrodd

Nod llywodraethwyr a staff Ysgol Garth Olwg yw bod pob disgybl yn gadael yr ysgol wedi'i gyfarparu'n briodol ac yn hyderus ar gyfer y cam nesaf yn eu bywydau. I'r perwyl hwn, mae'r ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn canolbwyntio ar fedrau llythrennedd a rhifedd ym mhob maes cwricwlaidd.

Gwybodaeth sylfaenol am y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn Ysgol Garth Olwg

Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yr ysgol yw Mrs Victoria Andrews. Y Dirprwy CADY yw Mrs Rhian Evans. Mae'r arweinwyr ADY yn gyfrifol am gydlynw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn Ysgol Garth Olwg a gweinyddiad dydd-i-ddydd polisi'r ysgol ar ADY.

Mae'r cysyniad o ADY yn canolbwyntio nid yn unig ar anabledd penodol ond ar yr holl nodweddion sy'n effeithio ar gynnydd addysgol plentyn. Gall natur yr anhawster fod yn un dros dro neu ysgafn, canolradd neu gymedrol, hirdymor neu ddifrifol. Felly, bydd llawer o ddisgyblion, ar ryw adeg, yn profi rhyw fath o anhawster dysgu, a fydd yn amharu ar eu cynnydd. O'r herwydd, gwelir darpariaeth ADY fel rhan o'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer disgyblion, sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i, eu cyfoedion. Mae mwyafrif y gwaith cefnogi ADY yn Ysgol Garth Olwg gyda disgyblion, yn aml ag anghenion tymor byr, y bydd angen cymorth arbennig arnynt rywbryd yn ystod eu gyrfa ysgol. Fodd bynnag, er y bydd y disgyblion hyn yn dal i gael cymorth ychwanegol, dim ond disgyblion ag angen "sylweddol" uwch na'u cyfoedion fydd yn cael eu hystyried fel rhai ag ADY.

Yn unol â'r Cod Ymarfer, mae'r Arweinwyr ADY yn gyfrifol am:

- Gweithrediad dydd i ddydd polisi ADY yr ysgol.
- Cydlynw darpariaeth ar gyfer plant ag ADY.
- Cynnal cofrestr ADY yr ysgol a goruchwyllo cofnodion yr holl ddisgyblion ag ADY.
- Mynychu cyfarfodydd yn ymwneud ag ADY unrhyw blentyn.
- Trefnu'r prosesau ar gyfer adnabod anghenion unigol disgyblion.
- Asesu a monitro disgyblion ag ADY.
- Cydlynw a gweithredu adolygiadau Cynllun Datblygol Unigol (CDU) blynyddol.
- Gweithredu CDU, Proffiliau Un Tudalen ac Adolygiadau Person-Ganolog.
- Cydgysylltu â rhieni disgyblion ag ADY - cysylltu ag asiantaethau allanol.
- Cydgysylltu â llywodraethwyr.
- Cydgysylltu â staff mewn ysgolion eraill.
- Paru adnoddau ag anghenion.
- Cydgysylltu a chynghori cyd-athrawon.

Gwybodaeth am adnabod, asesu a darpariaeth ar gyfer pob disgybl ag ADY

Adnabod disgyblion a'u hanghenion

Adnabyddir disgyblion, pan gânt eu derbyn i'r ysgol, trwy drefn ofalus sy'n cyfuno:

- Aseidiadau – WellComm , Cyswllt Iaith, DEST, MALT, Profion Cenedlaethol, Glannau Menai , Prawf Sillafu Cyfochrog Young, Salford Reading.
- Atgyfeiriadau gan ysgolion cynradd, rhieni ac asiantaethau allanol.
- Adnabod athro dosbarth a phwnc.

Cofrestr ADY

Cynhyrchir y gofrestr gan yr Arweinwyr ADY ac mae'n cynnwys enwau'r holl ddisgyblion y nodir bod ganddynt ADY. Cyfrifoldeb yr Arweinwyr ADY yw diweddarau ac adolygu'r gofrestr. Mae'r gofrestr ADY ar gael yn electronig ar wefan ADY y staff ac ar gyfrif Bromcom y disgybl.

CDU

Ysgrifennir Gynllun Datblygu Unigol (CDU) ar gyfer y disgyblion hynny y nodir y bod ganddynt Angen Dysgu Ychwanegol. Mae rhain yn cael ei adolygu pob 6 mis / blwyddyn yn dibynnu ar oedran y disgybl.

Proffiliau Un Tudalen

Yn unol â'r bil ADY diwygiedig sydd ar ddod, mae staff yr ysgol yn defnyddio prosesau o 'Gynllunio Person-Ganolog', ac yn cwblhau Proffiliau Un Tudalen gyda'r holl ddysgwyr ADY, yn ogystal â chynnal Adolygiadau Person-Ganolog. Mae'r broses hon yn barhaus. Cedwir ffeiliau unigol ar bob disgybl y nodir bod ganddynt ADY ar ei broffil Bromcom ac ar safle we ADY staff.

Darpariaeth ar gyfer pob disgybl ag ADY.

Nodau

- Galluogi plant i gyrraedd eu llawn botensial trwy ddarparu amgylchedd addas a boddhaol lle rhoddir pwyslais ar gryfderau yn hytrach na gwendidau.
- Meithrin hunanhyder a darparu cymhellion i ddysgu.
- Gwella safonau llythrennedd, rhifedd, sgiliau eraill a gwybodaeth.
- Rhoi mynediad i bob disgybl i gwricwlwm o berthnasedd, ehangder a dyfnder lle bynnag y bo modd.

Amcanion

- Nodi'r holl ddisgyblion sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer statws ADY, monitro eu cynnydd a helpu i oresgyn eu hanawsterau.
- Darparu adnodd i staff, ac i gefnogi eu gwaith, er budd disgyblion trwy addysgu cymorth a chyswllt.
- Gwelir darpariaeth ADY fel atodiad i ddarpariaeth dosbarth ac addysgu ac nid fel rhywbeth i gymryd ei le.

Darpariaeth Bresennol

- Cefnogaeth yn y dosbarth gan gynorthwyyr cynnal dysgu – dilyn y canllawiau a nodir yn CDU disgyblion a chefnogi disgyblion, pan fydd adnoddau'n caniatáu . Yn yr Ysgol Isaf gweithredir ymyraethau penodol gan athrawon dosbarth a CCD – WellComm , Language Link, DEST .
- Ymyraethau rhifedd a llythrennedd rheolaidd yn yr Ysgol Isaf a Chanol yn y dosbarth ac fel cymorth ychwanegol.
- Cyfleoedd cyn-ddysgu a gorddysgu wythnosol i ddisgyblion o flwyddyn 7 i flwyddyn 11.
- Sesiynau Ymyrraeth Llythrennedd rheolaidd i ddisgyblion Blynnyddoedd 2-9.
- Rhaglenni ymyrraeth yn ystod sesiynau bugeiliol - i ganolbwyntio ar broblemau penodol ee llawysgrifen, cyffwrdd-deipio, trefnu a mentora.
- Mae'r adran Cymorth Dysgu yn gweithredu polisi 'drws agored' yn y “Nyth” (yr ardal cymorth anghenion dysgu) yn ystod y dydd, pan fydd y staff yn caniatáu hyn.

Trefniadau Pontio gydag Ysgolion Partneriaeth Pontypridd (blwyddyn 6-7)

Nodau

- Er mwyn sicrhau trosglwyddiad mor esmwyth â phosibl i ddisgyblion o'n hysgolion partner.
- I gael gwybodaeth am anawsterau ac anghenion penodol disgyblion unigol.
- Adeiladu ar waith yr ysgolion partneriaeth.
- Darparu adborth i'r ysgolion partneriaeth.

Gweithdrefnau

Mae'r Arweinwyr ADY yn cysylltu'n uniongyrchol â'r Pennaeth , Tîm Arwain yr Ysgol ac athrawon dosbarth yn ysgolion cynradd y brif bartneriaeth. Pan fo disgyblion yn cael anawsterau arbennig, neu rieni yn mynegi pryder, anogir y ddau i ymweld ag Ysgol Garth Olwg cyn mynediad.

Cyswllt Rhieni

Nodau

- Sicrhau bod rhieni a'r ysgol yn gweithredu mewn partneriaeth i ddarparu ar gyfer anghenion y plentyn.
- Hwyluso cyfathrebu dwy ffordd am anawsterau disgyblion a'u cynnydd.
- Helpu i godi hunan-barch disgyblion.

Gweithdrefnau

Pan nodir ADY, cysylltir â rhieni gan yr Arweinwyr ADY er mwyn trafod anghenion y plentyn a'r ddarpariaeth sydd i'w gwneud gan yr ysgol. Yn dilyn cyfarfod gyda'r rhieni, cyfunir mewnbyn y rhieni gyda phryderon yr athrawon i ennill gwybodaeth am y plentyn ac i ddefnyddio arbenigedd rhieni i atgyfnerthu sgiliau. Lle bo angen adrodd yn ôl yn aml , fel yn achos disgyblion â datganiad neu rai ag anawsterau difrifol, darperir adroddiadau yn seiliedig ar farn yr holl athrawon pwnc. Anogir rhieni i gysylltu â'r Adran ADY os oes ganddynt unrhyw bryder.

Cysylltiadau ag asiantaethau allanol

Nodau

- Ennill gwybodaeth am ddisgyblion unigol a rhoi adborth.
- Trafod problemau ar gyfer disgyblion unigol ac atebion, strategaethau neu gynlluniau gweithredu posibl.
- I wneud defnydd o'r wybodaeth arbenigol, ee . Gwasanaeth Cymorth Dysgu, SNAP Cymru , elusennau lleol.
- Yn achos disgyblion sydd â datganiad, sicrhewch y cedwir at y datganiadau a'u hadolygu o ran eu haddasrwydd .

Asiantaethau Allanol

Mae'r gwasanaethau a weithredir gan aelodau ein tîm yn cynnwys:

- Y Seicolegydd Addysg.
- Y Gwasanaeth Cefnogi Dysgu.
- Y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad.
- SALT.
- CAHMS.
- Y Tîm Niwro-ddatblygiadol.
- Therapyddion Galwedigaethol.
- Tîm Nam ar y Golwg a'r Clyw.

Partneriaethau gydag ysgolion eraill

Mae staff ADY yr ysgol yn gweithio'n agos gydag ysgolion eraill e.e dosbarth ASD Maes - y-Bryn, Ysgol Ty Coch .

Dyrannu adnoddau

Mae'r Corff Llywodraethol yn dyrannu arian i'r adran ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Mae Tîm Arwain yr Ysgol yn gyfrifol am reoli'r cyllid hwn ac am flaenoriaethu prynu adnoddau. Dyrennir addysgu cefnogol i ddosbarthiadau, gan gymryd i ystyriaeth argaeledd staff ac arbenigedd, ac anghenion y disgyblion o fewn y dosbarth. Gall fod rhywfaint o hyblygrwydd o ran dyrannu addysgu cymorth mewn ymateb i angen. Pan gaiff CDUau eu hysgrifennu , rhoddir ystyriaeth i'r adnoddau sydd eu hangen i weithredu unrhyw ymyriad yn llwyddiannus a nodir y rhain yn y CDU.

Integreiddio

Mae'r holl ddisgyblion y nodir bod ganddynt ADY wedi'u lleoli'n bennaf mewn dosbarthiadau gallu cymysg, lle mae eu harweinwyr dosbarth a chyflawniad yn ymwybodol o'u hanghenion. Anogir disgyblion i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol fel rhan o'u dosbarth, neu mewn gweithgareddau allgyrsiol. Nod y System Wobrwy yw canmol pob disgybl, beth bynnag fo'i allu, am ei ymdrech mewn gweithgareddau neu

wersi. Mae pob disgybl yn cael ei gofrestru ar gyfer arholiadau allanol ar ddiwedd Blwyddyn 11.

Cwynion

Os oes angen i riant fynd i'r afael â mater sy'n peri pryder gallwch cysylltu â Mrs Victoria Andrews (CADY) a Mrs. Rhian Evans (Dirprwy CADY). Yn dilyn hyn, os na chaiff y mater ei ddatrys yn yr achos annhebygol, gall y rhieni ddilyn y datganiad). trefn gwyno'r ysgol.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan yr ysgol:

<https://sites.google.com/hwbcymru.net/ady-garth-olwg/cartrefhome>